

# TYRD, TI SY'N SYCHEDU AM Y GWIRIONEDD!

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Helpwch y gynulleidfa i weld pwysigrwydd gweithredu ar wahoddiad Duw i ddiwallu eu syched ysbrydol. Mewn ffordd ymarferol dangoswch sut i dderbyn adnewyddiad ysbrydol oddi wrth ddarpariaethau Duw

### **MAE GWAHODDIAD UNIGRYW YN MYND ALLAN HEDDIW AR RADDFA FYD-EANG (3 mun.)**

Mae gwahoddiad yn Datguddiad i dderbyn “dŵr y bywyd” (Dat 22:17)

Mae'r gwahoddiad yn hynod am ei fod yn deillio o ffynhonnell ddirchafedig drwy Iesu i'w ganlynwyr eneiog

Mae'r rhain yn ffurfio dosbarth-Ioan cyfansawdd (Dat 1:1-3)

Dim ond oddi wrth Jehofah Dduw, y bu i'w ysbryd gyfarwyddo Ioan i ysgrifennu'r geiriau gwahoddiad hyn, y gallai'r gwahoddiad rhyfeddol hwn ddod

Mae miliynau sydd eisoes wedi derbyn y gwahoddiad a gweithredu arno 'nawr â rhan yn ei estyn i eraill eto

Mae gwirionedd crefyddol yn rhan o “dŵr y bywyd,” sy'n cwmpasu holl ddarpariaeth Duw i achub y rhai sy'n ei garu

### **MAE CANFOD GWIRIONEDD CREFYDDOL YN HANFODOL HEDDIW (6 mun.)**

Mae gau ddysgeidiaeth crefyddol yn rhemp heddiw

Canlyniad hyn i addolwyr yw halogiad crefyddol, esgeulustod ysbrydol, a marwolaeth yn y pen draw

Er enghraifft, mae dysgeidiaeth yr enaid anfarwol yn gwrth-ddweud gwirionedd y Beibl

Mae'n gyfrifol am gyfeiliornadau crefyddol megis tân uffern, y purdan, trawsfudo'r enaid, a siarad honedig â'r meirw

Mae gwirionedd y Beibl yn cywiro cyfeiliornadau o'r fath (Gen 2:7; Esec 18:4 (BCL); Deut 18:9-13)

Dŵr y bywyd yn adfywhau, yn glanhau pob halogi crefyddol, yn rhoi gobaith bywyd tragwyddol (Eff 5:25-27; In 4:10-14)

O'i ddeall yn iawn, fe ddysg y Beibl ni sut i addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd (In 4:24)

Golchir yn lân y rhai sy'n ymateb oddi wrth halogiad crefyddol, cânt eu hadfywhau, eu rhyddhau oddi wrth gaethiwed ysbrydol (In 8:32)

Llawenhânt yn y gobaith ag iddo sail gadarn ynglŷn â bywyd mewn byd newydd

Mae'r gwahoddiad i dderbyn “dwr y bywyd” yn dal i fod

### **ANGEN MEITHRIN SYCHED AM WIRIONEDD CREFYDDOL (15 mun.)**

Mae'r rhai sy'n ymwybodol o'u hangen ysbrydol yn hapus (Mth 5:3 NW)

Rhaid ymwrthod â chyfeiliornad crefyddol, sychedu am y gwirionedd, a cheisio gwybodaeth oddi wrth Dduw (Diar 2:3-5)

Os ydym i fyw rhaid diwallu syched corfforol

Yn yr un modd, rhaid bodloni syched ysbrydol ar gyfer bywyd tragwyddol

Cynghorodd yr apostol Pedr bob un i flysio “am laeth ysbrydol pur” y gair, neu sychedu amdano (1Pedr 2:2)

'Dyw'r blys hwn ddim gan rai; mae angen help arnynt i ddatblygu'r syched

Un ffordd sydd gan gyfundrefn Jehofah o weithredu i godi syched am wirionedd ydi trwy gyhoeddi llenyddiaeth Feiblaidd

Datblygwch syched dwysach am y gwirionedd trwy ddarllen cyhoeddiadau ac astudio'n rheolaidd (w86 5/15 12-20)

Rhowch amser o'r neilltu i ddarllen cyhoeddiadau newydd, gan lynu wrth raglen astudio

Gellir ymgolli wrth astudio os gwneir yr hanesion yn fyw o flaen ein llygaid (Barn 7:19-22)

Mae cysylltu gwybodaeth newydd â'r wybodaeth sydd gennych eisoes yn ddefnyddiol hefyd; adolygwch syniadau

Peidiwch â bodloni yn unig ar 'laeth' y gair (Heb 5:12-14)

Mae angen astudio llyfrau megis *Revelation Climax*

Ffordd arall sydd gan gyfundrefn Duw i'n helpu i ddatblygu'r syched hwn ydi trwy ddarparu cyfarfodydd iachusol, cynulladau, cymanafoedd

Daw gorfoledd o gyd-gyfarfod (Neh 8:12)

Gwrandewch ar yr anogaeth i fod yn rheolaidd bresennol yn y cyfarfodydd

Gwnewch ymdrech ddifrifol, weddigar i ddatblygu syched ysbrydol

Ni fydd yn hawdd, oherwydd fod tueddiadau cnawdol a bydol yn elynion i Dduw (Rhuf 8:6-8; 1In 2:16, 17)

Nid anogir pobl i werthfawrogi angen ysbrydol, am fod Satan yn ceisio'u dallu (2Cor 4:4)

Felly, mae'r mwyafrif fel pridd sâl (Mth 13:3-7)

Gallwch fod fel tir da sy'n ffrwytho (Mth 13:8)

Gofynnwch i chi'ch hun: 'Oes syched arna'i am wirionedd crefyddol?'

Os ydych chi'n cymdeithasu â Thystion Jehofah, faint o wir syched sydd arnoch am wybodaeth gywir ynglŷn â gwirionedd Duw?

Peidiwch â bod fel rhai sy'n cyfeillachu am flynyddoedd ond yn glynu wrth gau ddysgeidiaeth, dathliadau penblwydd a gwyliau, ac yn y blaen

Torrwch gyfeillach ag unigolion neu gyfundrefnau fyddai'n gwyro'ch sylw chi oddi wrth weithgareddau ysbrydol

Megis na fedrwrch chi fyw heb ddŵr, 'fedrwrch chi ddim mwynhau bywyd tragwyddol heb ddiwallu'ch angen am "ddŵr bywyd"

Drwy astudio, mynychu cyfarfodydd, a gweddi, datblygwch a diwallwch eich syched am wirionedd

### **DIWALLU'R SYCHED AM WIRIONEDD HEB DÂL (15 mun.)**

Mae biliynau heddiw yn grefyddol gaeth i Babilon fawr, ymerodraeth fyd-eang gau grefydd

Talant arian mawr ond arhosant yn ysbrydol sychedig (*w88 2/15 21; w87 5/1 10-11; w86 12/1 28*)

Gogoniant gwir wybodaeth grefyddol yw ei bod heb dâl

Nodwch hyn wrth inni ddarlenn Eseia 55:1-4

Cyflawnwyd hyn yn gyntaf ar dystion eneiniog Jehofah (*Man's Salvation* tud. 95-9)

Yn ystod Rhyfel Byd I (1914-18), cafodd Babilon fawr yr eneiniog yn ei gafael drwy gyfrwng ei chariadon bydol, yn union fel y caethiwodd Babilon bobl Dduw gynt

Disgwyliodd y Cristnogion eneiniog am ddiwedd y byd drwg; ond ni ddaeth, ac fe'u siomwyd yn fawr

Drwy Iesu Grist, darparodd Duw ddyfroedd bywyd oedd yn diwallu ac a adfywhaodd ei bobl sychedig a rhoi gobaith iddynt

Y neges Ysgrythurol oedd gwaredigaeth rhag Babilon fawr drwy gyfrwng y Deyrnas Feseianaidd sefydledig Mae gwirionedd crefyddol o'r fath yn parhau i lifo fel afon i filiynau o bobl, a'r cyfan yn ddi-dâl

Dosberthir dyfroedd o'r fath hyd heddiw yn ddi-dâl yn fyd-eang mewn dros 200 o wledydd a rhagor na 200 iaith (O'r *Yearbook* diweddaraf, dyfynnwch ffigyrau yn ymwneud â'r cynnydd ymhlith cyhoeddwy, presenoldeb yn y Cyfarfod Coffadwriaeth, yr amser a dreulir yn dosbarthu dŵr y bywyd, a.y.y.b.)

### **BENDITHION DIWALLU SYCHED AM WIRIONEDD CREFYDDOL (6 mun.)**

Os ydych chi'n sychedu am wirionedd crefyddol, gwnewch rywbeth yn ei gylch 'nawr

Mae gwybodaeth am Dduw yn dechrau llenwi'r ddaear (Eseia 11:9)

Bydd yn parhau i mewn i'r Mil Blynnyddoedd sydd ar ddod (Dan 12:3, 4)

Sicrheir bendithion heb ddiwedd dan deyrnasiad y Deyrnas (Dat 22:17)

'Nawr yw'r amser i ddiwallu syched am wirionedd crefyddol

Ffowch o Fabilon fawr sydd wedi'i tharo gan newyn (Amos 8:11, 12)

Ymunwch â phobl Dduw yn y baradwys ysbrydol (Eseia 49:8-10; Dat 7:16, 17; *Revelation Climax* tud. 126-7)

Byddwch yn awyddus i ddrachtio'n ddwfn o "ffynnon dŵr y bywyd" (Dat 21:6b; *Revelation Climax* tud. 304)

Tyrd, ti sy'n sychedu am y gwirionedd, yf yn rhad!

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)